## Grŵp Monitro Barcud

*Y Grŵp Tenantiaid ar gyfer tenantiaid Barcud Cyf.*

Adroddiad Blynyddol 2022-2023 - Cyflawniadau a Chanlyniadau

Nid yw'r rhestr hon yn rhestr gyflawn o gyflawniadau a chanlyniadau'r Grŵp yn ystod 2022-2023, ond rydym yn gobeithio ei bod yn taflu ychydig o oleuni ar yr hyn yr ydym yn ei gyflawni ar ran ein cyd-denantiaid wrth weithio mewn partneriaeth â Barcud.

**Bwrdd Grŵp Barcud.**

- Yn rhan o adolygiad llywodraethu a rheoli'r Bwrdd.
- Yn rhan o'r broses o recriwtio'r cadeirydd newydd.
- Canllaw newydd y Grŵp Monitro wedi'i gynnwys yn y Pecyn Sefydlu ar gyfer aelodau newydd y Bwrdd.
- Cyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol ag aelodau'r Bwrdd er mwyn gwella eu gwybodaeth am weithgareddau'r Grŵp Monitro a chryfhau ein perthynas waith ymhellach.

**Strategaethau newydd.**

- Yn rhan o rai prosesau tendro. (Strategaeth Barcud ynglŷn â gwerth am arian)
- Monitro canlyniadau strategaeth Barcud ynglŷn â gwerth am arian.
- Cynrychiolaeth yng Ngrŵp Gorchwyl Barcud ar Leithder, Llwydni ac Anwedd. (Strategaeth Barcud ynglŷn â lleithder, llwydni ac anwedd)
- Y ffurflenni a ddychwelwyd yn ystod arolwg ynglŷn â lleithder, llwydni ac anwedd i'w gwirio gan y Grŵp Monitro yn ystod arolygon dros y ffôn. (Strategaeth Barcud ynglŷn â lleithder, llwydni ac anwedd)
- Llythyr apelio'r Grŵp Monitro ynglŷn â lleithder, llwydni ac anwedd wedi'i anfon at bob tenant. (Strategaeth Barcud ynglŷn â lleithder, llwydni ac anwedd)
- Y broses a'r dangosyddion perfformiad allweddol ynglŷn â lleithder, llwydni ac anwedd yn cael eu monitro. (Strategaeth Barcud ynglŷn â lleithder, llwydni ac anwedd)

**Polisïau.**

- Dileu cymalau a allai gael eu herio'n gyfreithiol.
- Sicrhau bod disgresiwn yn cael ei gynnwys ar gyfer tenantiaid agored i niwed.
- Sicrhau bod polisïau'n hawdd i denantiaid eu deall, os yn bosibl. Defnyddio iaith glir yn lle jargon a thermau cymhleth.
- Wedi adolygu llwyth o bolisïau ac wedi cynnig newidiadau iddynt cyn eu bod yn mynd gerbron Bwrdd Grŵp Barcud i gael eu cymeradwyo.
- Wedi bod yn ymwneud â pholisi pennu rhenti Barcud ar gyfer 2023-24 cyn iddo gael ei fabwysiadu gan Fwrdd Grŵp Barcud.

**Gweithrediadau a Gwasanaethau Barcud.**

- Monitro'n barhaus wasanaethau Barcud a'r modd y maent yn cael eu darparu. Os byddwn yn sylwi ar angen i wella, byddwn yn rhoi gwybod i Barcud ac yn monitro cynnydd.
- Safon Ansawdd Tai Cymru – Dewis o Geginau. Yn dilyn ein hadolygiad, mae gan ein cyd-denantiaid yn awr fwy o ddewis o loriau, arwynebau gwaith, dolenni cypyrddau, teils a drysau cypyrddau.
- "Cwrdd â'r Tîm". Yn dilyn ein cynnig, mae'r Prif Weithredwr ac amryw Gyfarwyddwyr wedi bod yn ymweld ag ystadau ar draws yr ardal weithredol er mwyn sgwrsio â thenantiaid a chlywed eu barn am gynnydd Barcud hyd yma.